Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

**DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB Y PERSON**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd |
| **Lleoliad** | Bae Caerdydd |
| **Yn atebol i'r** | Prif Weithredwr |
| **Y rhai sy'n adrodd yn uniongyrchol i ddeiliad y swydd** | 2 |
| **Cyfnod** | Parhaol |

**PRIF BWRPAS Y SWYDD:**

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (LSHW) yn sbarduno newid systematig a thrawsnewidiol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn creu dyfodol gwell i bobl Cymru. Ein rôl yw ysbrydoli arloesi a chydweithio rhwng diwydiant, iechyd a gofal cymdeithasol, a sefydliadau ymchwil er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl a theuluoedd ym mhob cwr o'r wlad.

I sbarduno newid, rydyn ni'n gweithio gyda GIG Cymru er mwyn deall problemau a chanfod sut gall arloesi helpu i ddarparu gwell gofal. Rydyn ni'n helpu busnesau i greu atebion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n creu cysylltiadau sy'n galluogi pobl a sefydliadau i weithio mewn partneriaeth.

Ein cenhadaeth yw cyflymu'r broses o ddatblygu a mabwysiadu atebion arloesol i sicrhau gwell iechyd a lles. Ein gweledigaeth yw sicrhau mai Cymru yw'r lle sy'n cynnig dewis ac arloesedd ym maes iechyd, gofal a lles.

Rydym yn chwilio am rywun eithriadol i ymuno â'n tîm fel Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd, sydd â'r gallu i feddwl yn strategol, gyda sgiliau cryf o ran meithrin cysylltiadau ac sy'n rhannu ein gwerthoedd o ran tegwch, urddas a pharch. Byddwch yn gweithio gyda ni ac yn dod ag egni, brwdfrydedd, a sgiliau cyfathrebu a phobl ardderchog er mwyn adeiladu ar ein llwyddiannau a gwneud yn siŵr bod ein gweledigaeth uchelgeisiol yn cael ei gwireddu.

Bydd gennych hanes blaenorol llwyddiannus o gefnogi'r gwaith o fabwysiadu arloesedd, fel ymarferydd datblygu economaidd, uwch arweinydd mewn cwmni corfforaethol mawr neu fel perchennog busnes.

Bydd y Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd yn adrodd i'r Prif Swyddog Gweithredol, ac yn aelod allweddol o'r tîm rheoli gweithredol, ac yn bennaf gyfrifol am greu, gweithredu a mesur llwyddiant dull y cwmni o wneud y canlynol:

i) Gwella canlyniadau iechyd a lles i bobl yng Nghymru
ii) Gwella effeithlonrwydd a gwerth yn y system iechyd a gofal yng Nghymru; a
iii) Hybu datblygiad economaidd drwy dwf busnes a chreu swyddi

Byddwch yn arwain y tîm Mabwysiadu Arloesedd i ddatblygu a gweithredu ystod o raglenni a gweithgareddau er mwyn:

i) hyrwyddo bwriad a gwasanaethau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf ar draws y sector iechyd a gofal a'r diwydiant gwyddorau bywyd yng Nghymru

ii) datblygu rhwydweithiau amlddisgyblaethol ar sawl lefel ar draws y sector iechyd a gofal, y sector gwyddorau bywyd a'r byd academaidd er mwyn casglu gwybodaeth, ffurfio partneriaethau a hwyluso cymorth i fabwysiadu arloesedd ym maes gofal iechyd

iii) gwreiddio arloesedd o fewn diwylliant y sector iechyd a gofal a sefydlu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf fel partner cyflenwi strategol

iv) cael effaith ar rwystrau mewnol ac allanol sy'n atal mabwysiadu arloesedd, a chefnogi newid trawsnewidiol o ran arloesedd ym maes gofal iechyd

v) canfod anghenion clinigol sydd heb eu diwallu a heriau perthnasol i iechyd y mae Byrddau Iechyd unigol, Ymddiriedolaethau a sefydliadau yn y sector iechyd a gofal ar raddfa ehangach yn eu hwynebu a'u defnyddio fel sail ar gyfer ffocws, dyluniad a chyflawniad rhaglenni a phrosiectau mabwysiadu arloesedd y Cwmni

vi) cynhyrchu llif o gyfleoedd arloesi ym maes gofal iechyd perthnasol / wedi'u targedu drwy system o heriau'r diwydiant, er mwyn sicrhau twf economaidd a mynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal

vii) sicrhau cyllid o'r sector cyhoeddus a phreifat i gefnogi datblygiad y sector Gwyddorau Bywyd yng Nghymru yn ogystal ag arloesedd ym maes gofal iechyd

Bydd y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol yn datblygu'n organig yn y tymor byr. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol a deiliad y swydd yn cytuno ar ddisgrifiad swydd terfynol ar adeg briodol.

Bydd llwyddiant y rôl yn cael ei asesu yn ôl dangosyddion perfformiad allweddol unigol. Caiff perfformiad hefyd ei fesur yn ôl cyflawniad cyffredinol y cynllun cyflawni / busnes o gymharu â gofynion y Llythyr Cylch Gwaith.

**PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:**

**Arweinyddiaeth a Llysgenhadol**

- Cyfrannu at y tîm rheoli gweithredol fel uwch arweinydd gyda'r gallu i weithio mewn ffordd gorfforaethol.

- Gweithio gydag arddull rheoli cydweithredol a dylanwadol drwy drafod gydag eraill i sicrhau'r canlyniadau gorau.

- Cefnogi'r Prif Swyddog Gweithredol i feithrin a chynnal cydberthnasau cryf, credadwy a pherthnasol gyda'r holl randdeiliaid allweddol yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

- Sicrhau ymrwymiad, mewnbwn ac adnoddau gan randdeiliaid allweddol a sefydliadau partner er mwyn datblygu a chefnogi gwaith Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a mynd ati i hyrwyddo'r gwaith o gyflawni'r genhadaeth i gyflymu'r broses o ddatblygu a mabwysiadu atebion arloesol i sicrhau gwell iechyd a lles.

- Meithrin diwylliant o bartneriaeth a chydweithio gyda sefydliadau rhanddeiliaid i gyflymu'r broses o fabwysiadu arloesedd mewn ymarfer.

- Sicrhau bod y tîm Mabwysiadu Arloesedd, ar y cyd â'r tîm Cyfathrebu, Marchnata a Digwyddiadau, yn datblygu ac yn cyflwyno rhaglenni gwaith integredig sy'n darparu canlyniadau ac effeithiau iechyd ac economaidd. nodau strategol a metrigau sydd wedi'u nodi yn y Llythyr Cylch Gwaith blynyddol.

- Dirprwyo ar ran y Prif Swyddog Gweithredol yn ystod gwyliau a chyfnodau absenoldeb, ac ysgwyddo holl gyfrifoldebau ac atebolrwydd y Prif Swyddog Gweithredol fel Swyddog Cyfrifyddu fel y nodir yn y Ddogfen Fframwaith.

**Rheoli Pobl**

- Ysbrydoli ac arwain tîm amlddisgyblaethol i weithio ar y cyd i gyflawni gweledigaeth a chenhadaeth y sefydliad. Creu ymdeimlad o gyfrifoldeb personol a chydgyfrifoldeb dros lwyddiant y Cwmni drwy ddirprwyo gwneud penderfyniadau, atebolrwydd a chyfrifoldebau i rymuso unigolion a thimau.

- Arwain yn y gwaith o recriwtio a chynefino is-weithwyr uniongyrchol, a chefnogi ymgyrchoedd recriwtio a dethol ar gyfer y sefydliad ehangach.

- Rhoi arweiniad, cyfarwyddyd a chymorth i'r rhai sy'n adrodd yn uniongyrchol i ddeiliad y swydd. Cynnal cyfarfodydd adolygu un-i-un rheolaidd, gan gynnwys gwerthusiadau bob chwe mis i gefnogi datblygiad a monitro perfformiad yn erbyn amcanion strategol a dangosyddion perfformiad allweddol. Gweithredu arferion, prosesau a pholisïau AD y cwmni er mwyn cefnogi iechyd a diogelwch a lles y tîm a sicrhau y cedwir atynt.

- Rheoli, annog, hyfforddi, mentora, cefnogi a datblygu is-weithwyr uniongyrchol i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau a chyfrifoldebau.

- Atebol am greu diwylliant sy'n cael ei gymell gan ganlyniadau - sefydlu targedau unigol a'r tîm er mwyn mesur effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac effaith yr holl weithgareddau o fewn y swyddogaeth ynghyd â chyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cwmni.

- Meithrin a chynnal sgiliau a gallu'r Cwmni i ddod yn arweinydd o safon fyd-eang o ran cefnogi dulliau cyflymach a haws o weithredu arloesedd o fewn gwasanaethau iechyd, gofal a lles
- Gweithio gydag arddull rheoli cydweithredol a meithrin perthnasoedd gwaith agos rhwng holl weithwyr Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

- Cymryd rhan allweddol yng ngwaith datblygu a gweithredu gwerthoedd y sefydliad.

- Hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb o fewn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac ymysg ei bartneriaid ehangach.

**Dylunio, Rheoli a Chyflawni Rhaglenni**

- Arweinydd strategol gyda GIG Cymru, sy'n cefnogi'r Prif Swyddog Gweithredol i gymryd rhan mewn trafodaethau cynllunio a strategaeth er mwyn blaenoriaethu a chytuno ar raglenni gwaith.

- Adeiladu a chynnal rhwydweithiau busnes, buddsoddiad ac arloesedd perthnasol a mynd ati'n rhagweithiol i hybu manteision cydweithio.

- Atebol am gyflawni'r rhaglenni gwaith mabwysiadu arloesedd a amlinellir yn y cynlluniau busnes/gweithredol/gweithredu yn llwyddiannus. Darparu prosiectau a fydd yn creu ffrwd o gyfleoedd gwerth uchel i'r GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru, twf economaidd cynaliadwy yng Nghymru ac ehangu busnesau o fewn y sector Gwyddorau Bywyd.

- Perchenogaeth gyffredinol dros ddyluniad, rheolaeth a chyflawniad integredig o'r canlynol:

  - strategaethau ymgysylltu ar-lein ac all-lein i bennu a rheoli materion a chyfleoedd iechyd a gofal a chanfod atebion posibl o ddiwydiant

  - proses rheoli mabwysiadu arloesedd effeithiol i werthuso a chyflwyno achos cadarn dros fabwysiadu a fydd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) chwilota a sganio'r gorwel, cyfleoedd brysbennu, asesu arbenigol, cefnogaeth busnes, casglu data, casglu gwybodaeth, a chyfeirio.

  - proses cefnogi busnes effeithiol i sicrhau galluogrwydd uwchraddio'r diwydiant, ar sail adnabyddiaeth fanwl o seilwaith twf busnes gwyddorau bywyd yng Nghymru, gan gynnwys eiddo, cyllid a sgiliau

  - strategaeth effeithiol i sicrhau cyllid y sector preifat a chyhoeddus drwy adnabod cyfleoedd yn gynnar, canfod ac ymgysylltu â chyllidwyr a phartneriaid consortiwm posibl i hwyluso'r gwaith o ddatblygu bid effeithiol.

  - sicrhau rhagoriaeth mewn caffael yn sector iechyd a gofal y diwydiant.

- Datblygu a defnyddio cynlluniau datblygiad economaidd tymor byr, tymor canolig a hirdymor, gan weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid y sector preifat a chyhoeddus er mwyn cael effaith gadarnhaol ar economi Cymru.

- Gweithio'n agosach â thîm ehangach Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i sicrhau dull integredig o gyflawni pob gweithgaredd.

- Arwain y gwaith o ddatblygu prosesau a strwythurau priodol i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu cyflawni'n llwyddiannus.

- Arwain ac atgyfeirio cyfleoedd busnes at raglenni ehangach Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, sy'n cynnwys ond heb ei gyfyngu i fidiau Cyllid, Cronfa Cyflymu a rhaglenni Ecosystem Iechyd Digidol Cymru.

- Darparu diweddariadau amserol ar brosiectau, adroddiadau, papurau a nodiadau briffio ar berfformiad yn ôl y galw er mwyn cefnogi anghenion y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, y Bwrdd, Llywodraeth Cymru a'r Gweinidogion.

**Cyfrifoldebau Ariannol**

- Atebol am gyllideb Mabwysiadu Arloesedd, gan arwain ar ddatblygu cyllideb a rheoli costau, caffael a pholisi i sicrhau safonau uchel llywodraethu a chydymffurfiaeth yng nghyswllt cyllid cyhoeddus, a chynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian.

- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau i reoli asedau ac adnoddau.

- Sicrhau y rheolir cyflenwyr yn effeithiol ac effeithlon. Bod yn gyfrifol am benodi a rheoli ymgynghorwyr / cyflenwyr allanol - monitro'r gwaith darparu yn erbyn y contract, ac ansawdd a chost-effeithiolrwydd hynny.

- Sicrhau bod y prosesau sy'n ymwneud ag agweddau ariannol yr adran yn cael eu gweithredu'n effeithiol, drwy fonitro a herio yn rheolaidd, gan gynnwys:

    - Craffu ar werth rhaglenni a phrosiectau a'i dracio'n drylwyr.

    - Gwneud yn siŵr y cydymffurfir â pholisïau, gweithdrefnau a gofynion rheoleiddiol y cwmni.

    - Mynd ati'n barhaus i sicrhau gwerth am arian a mwy o effeithlonrwydd.

    - Adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

**Rheoli Perfformiad, Risg a Chydymffurfedd**

- Fel rhan o'r tîm rheoli gweithredol, gweithio gyda bwrdd y cyfarwyddwyr i ddatblygu cynlluniau strategaeth, busnes a chyflawni sy'n bodloni amcanion strategol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a gofynion y Llythyr Cylch Gwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

- Datblygu, gweithredu a gwreiddio systemau i gasglu data perfformiad a chadw dogfennau perthnasol prosiectau. Gweithio gyda'r tîm i wneud yn siŵr bod data perfformiad a dogfennau prosiectau'n gadarn, yn gywir ac yn destun adroddiadau o fewn amserlenni gofynnol.

- Gweithio gyda'r tîm i nodi ac adolygu'r cynnydd yn erbyn cerrig milltir, a monitro'r cynnydd yn erbyn cynlluniau. Gweithio gyda'r tîm Cyfathrebu a Marchnata i

hybu llwyddiannau a datblygu a gweithredu cynlluniau cywiro i fynd i'r afael â diffygion, targedau ddim yn cael eu cyflawni neu mewn perygl o beidio â chael eu cyflawni.

- Ystyried y fframweithiau llywodraethu, risg, cydymffurfio a rheoli ar draws pob gweithgaredd a helpu'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau i ddatblygu a chynnal y fframweithiau hyn. Gwneud yn siŵr bod y tîm a'r rheolwyr gweithredol yn deall effaith risgiau/problemau rhaglenni'n glir, a bod atebion priodol yn cael eu nodi a'u rhoi ar waith. Uwchgyfeirio problemau difrifol neu strategol i'r Prif Swyddog Gweithredol/Bwrdd/Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fel y bo'n briodol.

- Cynhyrchu adroddiadau yn ôl y gofyn i'r rheolwyr gweithredol, y Bwrdd, ARAC, pwyllgorau a grwpiau mewnol ac allanol, Llywodraeth Cymru, Gweinidogion neu unrhyw randdeiliad arall.

**MANYLEB Y PERSON**

| NODWEDDION | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| **GWYBODAETH** | Gwybodaeth gadarn o'r diwydiant Gwyddorau Bywyd yng Nghymru a/neu'r DU. | Deall y fframwaith a'r cyd-destun gwleidyddol sy'n berthnasol i gwmni sy'n gweithredu fel 'corff hyd braich' ar ran Llywodraeth Cymru. |
| | Dealltwriaeth dda o rwystrau i fabwysiadu arloesedd. | Trosi a mabwysiadu methodoleg arloesedd yn ddelfrydol mewn lleoliad clinigol. |
| | Rhwydwaith presennol o arweinwyr busnes allweddol ar draws y sector gwyddorau bywyd. | Dealltwriaeth dda o ddeinameg systemau iechyd. |
| | Dealltwriaeth o oblygiadau gweithio mewn amgylchedd cymhleth gyda nifer o randdeiliaid. | Mecanwaith cyllido'r DU, UE a rhyngwladol. |
| | Methodoleg rheoli prosiectau. | |
| | Dealltwriaeth drylwyr o gyfleoedd a heriau yn y sector iechyd a gofal, yn benodol y rhai a wynebir gan GIG Cymru. | |
| | Technolegau a chyfleoedd clinigol sy'n dod i'r amlwg. | |

| | | |
|---|---|---|
| **PROFIAD** | Profiad o weithio yn y sector gwyddorau bywyd yng Nghymru a/neu'r DU. | Ymgynghori ar arloesedd yn ddelfrydol mewn amgylchedd iechyd a gofal. |
| | Ymarferydd datblygiad economaidd, uwch arweinydd o fewn cwmni corfforaethol mawr neu berchennog busnes sy'n gyfrifol am gynghori Bwrdd y Cyfarwyddwyr | Profiad uniongyrchol o ddarparu hyfforddiant busnes o safon i gefnogi twf busnes |
| | Datblygu strategaethau a chyflenwi gweithredol mewn amgylchedd cymhleth sy'n cynnwys sawl rhanddeiliad. | |
| | Rheoli, annog a datblygu tîm | |
| | Gosod cyllidebau a rheoli costau | |
| | Rheoli Risg. | |
| | Darparu nifer o raglenni/prosiectau ar yr un pryd ac yn unol â dangosyddion perfformiad allweddol. | Dylunio a gweithredu prosiectau/rhaglenni sy'n darparu atebion i heriau, yn ddelfrydol mewn perthynas â chasglu, gwerthuso a mabwysiadu arloesedd. |
| | Meithrin perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid ar lefel weithredol a'r bwrdd. | Profiad o arwain a chyfrannu at brosiectau arloesi cydweithredol rhwng sawl parti |
| **SGILIAU A GALLU** | Arweinyddiaeth gadarn - yn arwain drwy esiampl ac yn ymddwyn fel model rôl o ran ymddygiad a phroffesiynoldeb | |
| | Llawn cymhelliant ac ymroddedig i gyflawni canlyniadau ac effeithiau - hyrwyddo ac yn arwain y gwaith o gyflawni amcanion corfforaethol | |
| | Gallu hynod ddatblygedig o ran datrys problemau – yn alluog mewn adnabod, wynebu a datrys problemau | |
| | Gallu gwneud penderfyniadau craff – yn alluog mewn asesu gwybodaeth, ymddygiad a | |

| | | |
|---|---|---|
| | sefyllfaoedd er mwyn gwneud penderfyniadau amserol, ystyrlon sydd wedi'u hystyried yn dda | |
| | Sgiliau rhyngbersonol hynod ddatblygedig - y gallu i ddylanwadu, trafod a gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl randdeiliaid | |
| | Sgiliau cyfathrebu hynod ddatblygedig – gallu bod yn ystyriol a diplomataidd wrth gyfathrebu negeseuon, yn gwrando ac yn ymateb yn briodol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol | Rhugl yn y Gymraeg |
| | Gallu defnyddio pecynnau meddalwedd Windows, rheoli prosiectau a systemau CRM | |

**GOFYNION ERAILL**

- Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus basio gwiriad diogelwch datgelu a gwahardd.
- Yn barod i weithio'n hyblyg i ddiwallu anghenion rhesymol y cwmni.
- Ymroddiad i weithio'n unol â gwerthoedd y cwmni.
- Gallu gweithredu ar ei liwt ei hun wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- Gallu rheoli llwyth gwaith amrywiol a llawn ar ei ben ei hun.
- Trwydded yrru ddilys a'i gludiant ei hun. Fodd bynnag, fel cyflogwr cyfle cyfartal, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n gallu gwneud trefniadau teithio addas o fath arall.

Nid bwriad y disgrifiad swydd hwn yw cynnwys pob agwedd ar y swydd, ond yn hytrach rhoi diffiniad clir o bwrpas, cyfrifoldebau a dimensiynau sylfaenol y rôl.

Ar ben yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y disgrifiad swydd hwn, disgwylir i ddeiliad y swydd gyflawni pob tasg berthnasol a rhesymol arall y mae'r rheolwyr llinell yn ei rhoi iddo ef/hi.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf yn cydnabod ei bod yn bwysig datblygu a meithrin ei weithlu dwyieithog ac mae'n croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan unigolion sy'n dangos eu bod yn gallu gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n annog ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys heb ystyried rhyw, hil, anabledd, oed, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, statws priodasol neu feichiogrwydd a mamolaeth.

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

## JOB DESCRIPTION & PERSONAL SPECIFICATION

| | |
|---|---|
| **Job Title** | Innovation Adoption Director |
| **Location** | Cardiff Bay |
| **Responsible to** | CEO |
| **Direct Reportees** | 2 |
| **Term** | Permanent |

### MAIN PURPOSE OF ROLE:

Life Sciences Hub Wales (LSHW) drives transformational, systematic change in the health and social care sectors to create a better future for the people of Wales. Our role is to inspire innovation and collaboration between industry, health and social care, and research organisations to make a positive difference to people and families across the nation.

As a catalyst for change, we work with NHS Wales to understand issues and identify how innovation can help deliver better care. We support businesses to create health and social care solutions. We create connections which enable people and organisations to work in partnership.

Our mission is to accelerate the development and adoption of innovate solutions for better health and wellbeing. Our vision is to make Wales the place for choice and health, care and wellbeing innovation.

We are looking for someone exceptional to join our team as Innovation Adoption Director, a strategic thinker with strong relationship building skills who shares our values of fairness, dignity and respect. You will work with us bringing energy, enthusiasm, great communications and people skills to build upon our achievements and ensure our ambitious vision becomes a reality.

You will have a proven track record of supporting the adoption of innovation, as an. economic development practitioner, senior leader within a large corporate or business owner.

Reporting to the CEO, the Innovation Adoption Director is a key member of the executive management team (EMT), with primary responsibility for the creation, implementation and measuring the success of the company's approach to:

iv) Improving health and wellbeing outcomes for people in Wales
v) Improving efficiency and value within the Welsh health and care system; and
vi) Driving economic development, through business growth and job creation

You will lead the Innovation Adoption team to develop and implement a range of programmes and activities to:

viii) promote the intent and services of Life Sciences Hub Wales Ltd (LSHW) across the health and care sector and life sciences industry in Wales

ix) develop multi-discipline and multi-level networks across the health and care sector, life sciences sector and academia to acquire intelligence, form partnerships and facilitate support for the adoption of healthcare innovation

x) imbed innovation within the culture of the health and care sector and establish Life Sciences Hub Wales Ltd as a strategic delivery partner

xi) impact internal and external barriers to innovation adoption, and support a transformational change in healthcare innovation

xii) identify the unmet clinical needs and heath challenges encountered by individual Health Boards, Trusts and broader health and care sector organisations to inform the focus, design and delivery of the Company's innovation adoption programmes and projects

xiii) generate a pipeline of relevant / targeted healthcare innovation opportunities through a system of industry challenges to deliver economic growth and address health and care challenges

xiv) secure public and private sector funding to support the development of the Welsh Life Sciences sector and healthcare innovation

The specific duties and responsibilities will develop organically in the short term. The CEO and post holder will agree a final job description at an appropriate time.

The success of this role will be assessed against individual key performance indicators. Performance will also be judged against the overall delivery of the business / delivery plan against the requirements of the Remit Letter.

**MAIN DUTIES & RESPONSIBILITIES:**

**Leadership and Ambassadorial**

- Contribute to the EMT as a senior leader with the ability to work in a corporate style.

- Work with a collaborative and influencing management style by negotiating with others to achieve the best outcomes.

- Support the CEO in building and maintaining strong, credible and relevant relationships with all key stakeholders in Wales, the UK and Internationally.

- Secure commitment, input and resources from key stakeholders and partner organisations to develop and support the work of the LSHW and actively

promote the delivery of the mission to accelerate the development and adoption of innovative solutions for better health and wellbeing.

- Build a culture of partnership and collaboration with stakeholder organisations to speed up adoption of innovation in practice.

- Ensure the Innovation Adoption team, in conjunction with the Communications, Marketing and Events team, develop and deliver impactful, integrated programmes of work that deliver health and economic outcomes and impacts. strategic aims and metrics set out in the annual Remit Letter.

- Deputise for the Chief Executive Officer (CEO) during holidays and periods of absence, assuming all accountabilities and responsibilities of the CEO as Accounting Officer as set out in the Framework Document.

**People Management**

- Inspire and lead a multi-disciplinary team to work collaboratively to achieve the organisations vision and mission. Engendering a sense of personal and collective responsibility for Company success through delegation of decision making, accountability and responsibilities to empower individuals and teams.

- Lead on recruitment and induction of direct reports, and support recruitment and selection campaigns for the wider organisation.

- Provide leadership, direction and support to direct reports. Conduct regular one-to-one review meetings, including half-year appraisals to support development, monitor performance against strategic objectives and key performance indicators. Implement the company HR policies, processes and practices to support the health and safety and wellbeing of the team and that they are adhered to.

- Manage, motivate, coach, mentor, support and develop direct reportees to ensure that they are able to deliver their duties and responsibilities.

- Accountable for creating a result driven culture - establishing individual and team targets to measure the effectiveness, efficiency and impact of all activities within function and achievement of company Key Performance Indicators.

- Building and maintaining the skills and capability of the Company to become a world class leader in supporting faster and easier implementation of innovation into health, care and wellbeing services

- Work in a collaborative management style and foster close working relations between all LSHW employees.

- Take a key role in the development and implementation of organisational values.

- Promote diversity, inclusion and equality within LSHW and wider partners.

**Programme Design, Management and Delivery**

- Strategic lead with NHS Wales, supporting the CEO to attend planning and strategy discussions to agree and prioritise work programmes.

- Build and maintain relevant business, investment and innovation networks and proactively drive the benefit of collaborative working.

- Accountable for the overall successful delivery of the innovation adoption work programmes outlined within the business/operational/implementation plans. Delivering projects which will create a pipeline of high value opportunities to the NHS and social care in Wales, sustainable economic growth in Wales and business expansions within the Life Sciences sector.

- Overall ownership for the design, management and integrated delivery of:

    - online and offline engagement strategies to identify and manage health and care issues and opportunities and source potential solutions from industry

    - an effective innovation adoption management process to evaluate and present a robust case for adoption to include (but not limited to) horizon scanning scouting, triaging opportunities, expert assessment, business support, data collection, information gathering and signposting.

    - an effective business support process to secure industry scale-up capability, based on familiarity with the Welsh life sciences business growth infrastructure including premises, funding and skills

    - an effective strategy to secure private and public-sector funding through early identification of opportunities, proactive identification and engagement with funders and potential consortium partners to facilitate effective bid development.

    - securing industry-health and care sector procurement excellence.

- Develop and deploy short, medium- and long-term economic development plans, working in partnership with private and public sector stakeholders to positively impact the Welsh economy.

- Working closely with the wider LSHW team to secure an integrated approach to the achievement of all activities.

- Drive continued development of appropriate processes and structures to ensure successful programme delivery.

- Guide and refer business opportunities to wider LSHW programs, which includes but is not limited to Funding bids, Accelerate Fund and Digital Health Ecosystem Wales programmes.

- Provide timely project updates, performance reports, papers and briefings as required to support the needs of ARAC, Board, Welsh Government and Ministers.

**Financial Responsibilities**

- Accountable for the Innovation Adoption budget, leading on budget development and cost control, procurement and policy to secure high standards of public finance governance and compliance and upholding the principles of regularity, propriety and value for money.

- Support Operations Director in the management of assets and resources.

- Ensure effective and efficient supplier management. Responsible for the appointment and management of external consultants / suppliers - monitoring the delivery, quality and cost-effectiveness against contract.

- Ensure that the processes relating to financial aspects of the department are effectively applied, through regular monitoring and challenge to include:

    - Rigorously scrutinise and track value of programmes and projects.

    - Secure compliance with company policies, procedures and regulatory requirements.

    - Constantly strive for value for money and greater efficiency.

    - Regular reporting to the Audit Risk and Assurance Committee

**Performance, Risk and Compliance Management**

- As part of EMT, work with the board of directors to develop strategy, business and delivery plans which meet the strategic aims of LSHW and requirements of the Remit Letter issued by Welsh Government.

- Develop, implement and embed systems to capture performance data and maintain relevant project documentation. Work with team to ensure performance data and project documentation is robust, accurate and reported within mandated timescales.

- Work with team to identify and review progress against milestones and monitor progress against plans. Work with Communications and Marketing team to promote successes and develop and implement remedial plans to address shortfalls, targets not being achieved or in danger of not being met.

- Consider governance, risk, compliance and control frameworks across all activities and support Operations Director to develop and maintain same. Ensure that the impact of programme risks/issues are clearly understood by team and executive management and that appropriate resolutions are identified and implemented. Escalating serious or strategic issues to CEO/Board/Audit and Risk Assurance Committee as appropriate.

- Produce reports as required for executive management, Board, ARAC, internal and external committees and groups, Welsh Government, Ministers or any other stakeholder.

**PERSONAL SPECIFICATION**

| ATTRIBUTES | ESSENTIAL | DESIRABLE |
|---|---|---|
| **KNOWLEDGE** | Strong knowledge of the Life Sciences industry across Wales and/or the UK. | An appreciation of the political context and framework for a company operating as an ‘arm’s length body’ of the Welsh Government. |
| | Good understanding of innovation adoption barriers. | Translation and adoption of innovation methodology ideally in a clinical setting. |
| | Existing network of key business leaders across the life sciences sector. | Good understanding of health system dynamics. |
| | Understanding of the implications of working in a complex environment with a number of stakeholders. | UK, EU and international funding mechanism. |
| | Project management methodology. | |
| | Deep understanding of the opportunities and challenges the health and care sector, specifically faced by NHS Wales. | |
| | Emerging technologies and clinical opportunities. | |
| **EXPERIENCE** | Experience of working within the life sciences sector in Wales and/or the UK. | Innovation consultancy ideally in a health and care environment. |
| | Economic development practitioner, senior leader within a large corporate or business owner with responsibility for advising Board of Directors | Direct experience of providing quality business coaching to support business growth |
| | Strategy development and operational delivery in a complex, multi-stakeholder environment. | |
| | Managing, motivating and developing a team | |

| | | |
|---|---|---|
| | Budget setting and cost control | |
| | Risk Management. | |
| | Delivering a number of programmes/projects concurrently and to key performance indicators. | Design and implementation of projects/programmes that provide solutions to challenges, ideally in relation to the capture, evaluation and adoption of innovation. |
| | Building strong relationships with stakeholders at executive and board level. | Experience of leading and participating in multi-party collaborative innovation projects |
| **SKILLS & ABILITIES** | Strong leadership - leads by example and acts as a role model in terms of behaviour and professionalism | |
| | Driven and dedicated to achieving outcomes and impacts - promotes and leads the achievement of corporate objectives | |
| | Highly developed problem-solving ability – skilled at identifying, confronting and proactively resolving issues | |
| | An astute decision maker – skilled at assessing information, behaviours and situations to make timely, considered and well-judged decisions | |
| | Highly developed interpersonal skills - ability to influence, negotiate and work in partnership with all stakeholders | |
| | Highly developed communication skills – ability to demonstrate tact and diplomacy when communicating messages, listens and responds appropriately in formal and informal situations | Fluent in the Welsh Language |

| | | |
|---|---|---|
| | Proficient in window-based software packages, project management and CRM systems | |

**OTHER REQUIREMENTS**

- Successful candidates must pass a disclosure and barring security check.
- Willingness to work flexibly to meet the reasonable needs of the company.
- Commitment to working in accordance with the company's values.
- Self-sufficient in use of information and communications technology.
- Ability to self-manage a full and varied workload.
- Valid driving license and own transport. However, as an equal opportunity employer, we welcome applications from those who are able to make alternative, suitable travel arrangements.

This role description is not intended to be exhaustive in every respect, but rather to clearly define the fundamental purpose, responsibilities and dimensions for the role.

In addition to the contents of this role description, the post holder will be expected to undertake all other reasonable and related tasks allocated by line management.

Life Sciences Hub Wales Ltd acknowledges the importance of developing and growing its bilingual workforce and welcomes applications for any post from candidates who demonstrate their capability to work in both English and Welsh.

Life Sciences Hub Wales is an equal opportunities employer and positively encourages applications from suitably qualified and eligible candidates regardless of sex, race, disability, age, sexual orientation, gender reassignment, religion or belief, marital status, or pregnancy and maternity.